**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
30 Ebrill 2024

**PART 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn ei gwneud yn ofynnol i gamerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) gael eu gosod ym mhob lladd-dy mewn mannau lle mae anifeiliaid byw’n cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd. Rhaid i weithredwr y lladd-dy gadw'r delweddau sy'n cael eu recordio am 90 diwrnod o leiaf, a'u gwneud ar gael i bersonau awdurdodedig e.e. Milfeddygon Swyddogol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), i'w gweld, eu copïo neu eu hatafaelu at ddibenion monitro a gwirio safonau lles anifeiliaid yn y lladd-dy.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â chamgymeriadau a nodwyd yn y rhai a osodwyd ar 12 Mawrth 2024 ac a dynnwyd yn ôl wedyn.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau 2024 drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 12 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 er mwyn hybu lles anifeiliaid.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg Eu Lladd (Cymru) 2014 yn gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1099/2009 a wnaed ar 24 Medi 2009 ar amddiffyn anifeiliaid ar adeg eu lladd yng Nghymru, yn ogystal â chynnal rheolau cenedlaethol llymach gyda'r nod o sicrhau amddiffyniad mwy helaeth i anifeiliaid ar adeg eu lladd. Mae Rheoliadau 2024 yn ategu'r drefn honno.

Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau uchelgeisiol i wella lles anifeiliaid. Un o’r ymrwymiadau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV).

Mae Rheoliadau 2024 yn ei gwneud yn ofynnol:

- Gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a’u lladd.
- I weithredwyr lladd-dai gadw’r delweddau a recordiwyd am 90 diwrnod o leiaf.
- Caniatáu i unigolion awdurdodedig allu gweld, copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd.

Ni all CCTV gymryd lle goruchwyliaeth uniongyrchol gan staff lladd-dai, Swyddogion Lles Anifeiliaid a Milfeddygon Swyddogol yr ASB, ond gall wella effeithlonrwydd gweithgareddau monitro a gorfodi, a hefyd mae manteision cysylltiedig o ran lles

anifeiliaid. Mae CCTV yn rhoi i Filfeddygon Swyddogol yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn monitro cydymffurfedd â’r rheoliadau, a hynny mewn modd rhwyddach a mwy cyfleus, a gall gofnodi digwyddiadau unigol ac ategu archwiliadau. Bydd hyn yn helpu i wella hyder y cyhoedd ynglŷn â sicrhau safonau lles.

Gall recordiadau CCTV gynnig tystiolaeth ddilys a thryloyw, a gellir eu cadw am gyfnodau maith. Hefyd, gall alluogi staff lladd-dai, Swyddogion Lles Anifeiliaid a Milfeddygon Swyddogol i wylio anifeiliaid sydd mewn mannau a allai beri risg uchel i’w lles, yn ogystal â mannau sy’n beryglus neu’n anhygyrch i bobl, gan eu galluogi i nodi ymddygiadau anifeiliaid – ymddygiadau efallai na fydd pobl yn gallu eu gweld.

Mae’r ASB yn monitro ac yn gorfodi rheoliadau lles anifeiliaid mewn lladd-dai yn unol â hierarchaeth sancsiynau, gan amrywio o gyngor llafar ac ysgrifenedig i roi gwybod am droseddau at ddiben erlyn. Bydd yr ASB yn defnyddio CCTV yn rhan o’i rôl orfodi bresennol mewn lladd-dai.

Un o brif fanteision CCTV yw sicrhau y cydymffurfir yn well â gofynion lles anifeiliaid adeg eu lladd – mae hyn o ganlyniad i effaith ataliol CCTV ynghyd â rhagor o wybodaeth i ategu camau gorfodi gan yr ASB.

## 5. Ymgynghori

Gwnaethom ymgynghori ynghylch cynigion i wneud CCTV yn ofynnol ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid byw yn bresennol. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ym mis Tachwedd 2022, ac roedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion ym mis Chwefror 2023. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ym mis Mai 2023.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried deg cwestiwn am ein cynigion, effeithiau economaidd ar y diwydiant, manteision ar gyfer lles anifeiliaid a'r effaith ar y Gymraeg.

Cafwyd 16,014 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 15,955 drwy e-bost a 59 ar y ffurflen ymateb ar-lein. Cafwyd 71 o ymatebion unigol a derbyniwyd 15,943 o ymatebion e-bost union yr un fath fel rhan o ymgyrch gan yr RSPCA. Cyflwynodd yr RSPCA ymateb sylweddol ar wahân hefyd.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn seiliedig ar y 71 o ymatebion nad oeddent yn rhan o'r ymgyrch, sy'n cynnwys yr ymateb sylweddol gan yr RSPCA. Mae ymatebion a oedd yn rhan o’r ymgyrch yn cael eu hystyried ar wahân:

- Roedd 86% o ymatebwyr yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy yn y mannau lle mae anifeiliaid byw’n bresennol, yn cynnwys mannau lle mae anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a’u lladd.

- Roedd 84% o ymatebwyr yn cytuno â’r prif fanteision o ran lles anifeiliaid a nodir gennym mewn perthynas â’i gwneud yn ofynnol i ladd-dai ddefnyddio CCTV.

- Roedd 74% o ymatebwyr yn cytuno â'r gofyniad arfaethedig i weithredwyr busnesau bwyd gadw recordiadau CCTV am 90 diwrnod.

- Roedd 84% o ymatebwyr yn cytuno y dylai unigolion awdurdodedig gael mynediad dilyffethair er mwyn iddynt allu gweld (mewn amser real a delweddau wedi'u cadw), copïo neu atafaelu delweddau a recordiwyd

- Roedd 38% o ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad o'r gost i ladd-dai unigol a diwydiant lladd-dai Cymru yn sgil cyflwyno CCTV mandadol. Roedd 9% yn anghytuno, ac nid atebodd y 53% a oedd yn weddill ag ateb cadarnhaol / negyddol, neu nad oeddent yn siŵr.

Cafwyd 15,943 o ymatebion fel rhan o ymgyrch yr RSPCA. Roedd 100% o'r ymatebwyr a oedd yn rhan o'r ymgyrch yn cytuno y dylid gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy yn y mannau lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, yn cynnwys mannau lle mae anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd. Roedd 100% o ymatebwyr yn cytuno â'r prif fanteision o ran lles anifeiliaid a nodir gennym mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i ladd-dai ddefnyddio CCTV?

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai | LLYW.CYMRU]

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud teledu cylch cyfyng (CCTV) yn ofynnol ym mhob lladd-dy. Amcanion y polisi yw gwella lles anifeiliaid mewn lladd-dai a chynnig sicrwydd bod pob lladd-dy yn gweithredu'n ôl safonau lles uchel. Cyflawnir hyn drwy fandadu y dylid gosod CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid byw'n cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd. Dylai'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) allu cael gafael ar y recordiadau CCTV, a byddai'n ofynnol i weithredwr y lladd-dy gadw'r recordiadau am gyfnod penodol, gan sicrhau eu bod ar gael at ddibenion archwilio a bod ganddynt statws tystiolaethol.

2. Mae eisoes CCTV yn ein lladd-dai mwyaf, sy'n prosesu'r mwyafrif llethol o anifeiliaid. Ym mis Ionawr 2022, cynhaliodd yr ASB arolwg ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn asesu'r cyfleusterau CCTV sydd yn holl ladd-dai Cymru ar hyn o bryd. Arolygwyd 23 o ladd-dai (nid oedd un o'r safleoedd a arolygwyd wedi bod yn weithredol ers Gorffennaf 2021). Mae canfyddiadau'r arolwg isod:
   - Roedd CCTV ar ryw ffurf mewn 17 lladd-dy (gan gynnwys pob lladd-dy dofednod).
   - Nid oedd unrhyw CCTV mewn chwe lladd-dy (cig coch i gyd).
   - O'r 17 lladd-dy a chanddynt CCTV, roedd gan ddeg ohonynt system a fyddai'n cydymffurfio â'r gofynion presennol yn Lloegr a'r Alban, a'n cynigion ni.[1] [2]

3. Mae rhai o'n lladd-dai mwyaf yn dilyn protocol gwirfoddol a ddatblygwyd ar y cyd ac y cytunwyd arno gan yr ASB a chyrff y diwydiant, er mwyn galluogi Milfeddygon Swyddogol i gael mynediad at recordiadau. Er na all CCTV gymryd lle goruchwyliaeth uniongyrchol gan reolwyr lladd-dai neu Filfeddygon Swyddogol, yn enwedig ar safleoedd bach iawn, gall gynnig tystiolaeth ategol wrthrychol ynglŷn â'r gwaith a wneir ym mhob sefydliad. Oherwydd hyn, byddwn yn mynnu bod pob lladd-dy yn gosod ac yn gweithredu system CCTV yn yr holl fannau lle bydd anifeiliaid byw yn bresennol.

4. Drwy osod CCTV mewn mannau lle mae anifeiliaid byw yn bresennol, bydd modd gwella effeithlonrwydd y gweithgareddau monitro a gorfodi drwy gynnig i Filfeddygon Swyddogol yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a hynny mewn modd rhwyddach a mwy cyfleus. Mae data gorfodi'r ASB[3] ar gyfer 2022/23 yn dangos bod o leiaf 15% o achosion diffyg cydymffurfio mewn lladd-dai yn dod i'r amlwg yn sgil gwylio CCTV, yn fyw neu'n ôl-weithredol, a bod CCTV yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn dystiolaeth i ategu camau gorfodi. Hefyd mae gan CCTV rôl weithredol yn y broses o atal a dirymu Tystysgrifau Cymhwysedd[4]. Cafodd 50 o dystysgrifau eu hatal neu eu dirymu yn 2022/23, a defnyddiwyd CCTV yn 42 o'r achosion hynny er mwyn helpu i benderfynu ar y canlyniad. Mae hyn yn 84% o'r holl dystysgrifau a gafodd eu hatal neu eu dirymu (data'r ASB) [5].

---

[1] https://www.gov.uk/government/publications/cctv-in-slaughterhouses-rules-for-operators

[2] Animal slaughter: guidance on the use of mandatory CCTV - gov.scot (www.gov.scot)

[3] Yr Asiantaeth Safon Bwyd – Diweddariad ar Les Anifeiliaid yng Nghyfarfod y Pwyllgor Busnes: Board Paper Template 2023 inc checklist (food.gov.uk)

[4] Slaughter licensing | Food Standards Agency

[5] Board Paper Template 2023 inc checklist (food.gov.uk)

5. Gwnaethom ymgynghori ynghylch cynigion i'w gwneud yn ofynnol gosod CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid byw yn bresennol. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ym mis Tachwedd 2022, ac roedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion ym mis Chwefror 2023.[6]

6. Fe fydd goblygiadau i'r rhai sy'n gysylltiedig â lladd anifeiliaid i'w bwyta gan bobl. Gwnaethom baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol i fod yn destun ymgynghoriad.[7] Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu effeithiau ariannol ac ymarferol ein cynigion ar gyfer partïon yr effeithir arnynt, gan gynnwys diwydiant a'r sector cyhoeddus.

7. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried costau gosod a chynnal a chadw systemau CCTV, yn ogystal â chost cadw'r recordiadau CCTV. Seiliwyd yr asesiad hwn ar wybodaeth gyfyngedig am gostau, ac roeddem yn falch o gael rhagor o wybodaeth am y mater hwn. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad ystyried tri chwestiwn am gostau:

   **Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r gost i (a) lladd-dai unigol a (b) diwydiant lladd-dai Cymru yn ei gyfanrwydd yn sgil cyflwyno CCTV mandadol? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

   **Cwestiwn 6:** A ydych o'r farn bod y costau sydd ynghlwm wrth gyflwyno CCTV mandadol mewn lladd-dai yn rhesymol ac yn gymesur i fusnesau unigol, ni waeth be fo'u maint? Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

   **Cwestiwn 7:** A oes unrhyw fanteision neu gostau economaidd na soniwyd amdanynt yn y ddogfen ymgynghori neu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Esboniwch beth yw'r rhain a chyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

8. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ionawr 2023[8].

**Yr opsiynau**

9. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy ddefnyddio CCTV yn ystod tymor y Llywodraeth hon.[9]

   **Opsiwn 1. Busnes fel arfer** – o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gofyniad i weithredwyr lladd-dai osod CCTV ar eu safleoedd.

   **Opsiwn 2. Mandadu y dylid gosod CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd.**

---

[6] Teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai | LLYW.CYMRU
[7] Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) mandadol mewn Lladd-dai: Asesiad Effaith Rheoleiddiol [HTML] | LLYW.CYMRU
[8] Templed Ymgynghori (llyw.cymru)
[9] Rhaglen Lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU

**Costau a manteision**

**Opsiwn 1. Busnes fel arfer**

10. Dyma'r opsiwn sylfaenol ac ni fyddai unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig ag ef. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy ddefnyddio cyfleusterau CCTV yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Nid yw "busnes fel arfer" yn opsiwn.

**Opsiwn 2. Mandadu y dylid gosod CCTV ym mhob lladd-dy cymeradwy mewn mannau lle mae anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd.**

**Y gost i ladd-dai**

11. Yn 2017, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Asesiad Effaith i gefnogi ymgynghoriad ar CCTV gorfodol mewn lladd-dai. Roedd yr Asesiad Effaith yn rhoi amcangyfrif o'r costau uniongyrchol y gallai fod angen i'r diwydiant lladd-dai yn Lloegr eu talu.[10]

12. Mae Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Lloegr) 2018 yn cynnwys gofyniad i adolygu'r ddeddfwriaeth o fewn pum mlynedd iddi ddod i rym.[11] Asesodd DEFRA effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, gan ystyried ei heffaith ac awgrymu diwygiadau, a chyhoeddodd y canfyddiadau ym mis Mehefin 2023.[12] Asesodd yr adolygiad y costau a'r manteision o ganlyniad i'r Rheoliadau CCTV, yn seiliedig ar y dystiolaeth wedi'i chasglu gan randdeiliaid a'u cymharu â'r amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith gwreiddiol.

13. Gwnaethom ddefnyddio ein hymarfer ymgynghori ein hunain i gasglu rhagor o dystiolaeth am y costau hyn.

**Costau uniongyrchol untro**

14. Mae'n anodd mesur cyfanswm y costau, a byddant yn dibynnu ar faint a threfn pob lladd-dy.

15. Amcangyfrifwn y bydd cyfanswm y costau cyfalaf am osod system CCTV newydd oddeutu £40,000 ar draws y sector. Ar gyfer lladd-dai nad oes ganddynt CCTV, rydym wedi rhagdybio y byddai cost untro rhwng £3,000 £10,000.

16. Ar gyfer lladd-dai â rhywfaint o CCTV, rydym wedi rhagdybio y byddai cost untro rhwng £50 a £1,000 ar gyfer pob man ychwanegol nad oes ynddo CCTV. Gallwn ragdybio y byddai CCTV yn para am bum mlynedd, felly nid ystyrir costau disodli yn yr asesiad hwn.

---

[10] CCTV internal impact assessment final.pdf (defra.gov.uk)
[11] The Mandatory Use of Closed Circuit Television in Slaughterhouses (England) Regulations 2018 (legislation.gov.uk)
[12] The Mandatory Use of Closed Circuit Television in Slaughterhouses (England) Regulations 2018 (legislation.gov.uk) – Adolygiad Ôl-weithredu

## Costau uniongyrchol rheolaidd

17. Amcangyfrifwn y bydd y costau dyddiol sydd ynghlwm wrth oruchwylio a chynnal a chadw systemau CCTV yn lladd-dai Cymru oddeutu £6,000 y flwyddyn. Seilir hyn ar y canlynol: Tybiaeth ei bod yn cymryd 30 munud y dydd ar gyfartaledd i wirio camerâu CCTV, a'u bod wedi'u lleoli ac yn gweithredu'n gywir; data gan yr ASB ar oriau gweithredu lladd-dai; tâl fesul awr y rhai sy'n ymwneud â phrosesu a pharatoi bwyd (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021).[13] Ychwanegir 30% i dalu am gostau fel cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, tâl gwyliau ac ati.

18. Yn ychwanegol at hyn, amcangyfrifir y bydd y costau cynnal a chadw blynyddol i ladd-dai rhwng £2,000 a £4,000, yn seiliedig ar dâl gwasanaeth blynyddol tybiedig rhwng 5% a 10% o werth cyfalaf cychwynnol y cyfarpar CCTV ychwanegol.

19. Amcangyfrifwn y gallai costau storio recordiadau CCTV fod oddeutu £500. Mae hyn yn seiliedig ar uchafswm cost flynyddol amcangyfrifedig o £50 bob blwyddyn/fesul lladd-dy yn achos lladd-dai sydd heb unrhyw CCTV ar hyn o bryd, a £20 yn ychwanegol bob blwyddyn/fesul man ar gyfer lladd-dai sydd â rhywfaint o CCTV ar hyn o bryd. Cyfrifir hyn ar y sail y bydd angen tua 2TB o gapasiti storio ar gyfer 90 diwrnod o recordiadau gan bum camera CCTV.

20. Amcangyfrifwn y bydd costau gweithredu rheolaidd eraill, megis trydan, yn isel iawn, er enghraifft rhwng £500 a £1,000 y flwyddyn.

21. I grynhoi, amcangyfrifwn y bydd y costau rheolaidd uniongyrchol i ladd-dai rhwng £2,000 a £10,000 y flwyddyn.

## Costau i'r Sector Cyhoeddus

22. Ni fydd gweithredu a gorfodi’r rheoliadau hyn yn arwain at gostau ychwanegol i Awdurdodau Lleol. Bu cost weithredu fach i Lywodraeth Cymru am lunio canllawiau i’r diwydiant lladd-dai – rydym wedi llunio'r canllawiau hyn ar y cyd â’r ASB. Hefyd bu rhaid i Lywodraeth Cymru dalu cost rhannu gwybodaeth am y polisi. Ni ddisgwylir i gyfanswm y gwariant fod yn fwy na £5,000. Mae'n annhebyg y bydd unrhyw arbedion sylweddol. Mae’r cyhoedd a sefydliadau’r trydydd sector wedi lobïo Llywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn i’w gwneud yn orfodol gosod CCTV mewn lladd-dai. Gwaith llafurus yw ymateb i ohebiaeth reolaidd ynglŷn â’r pwnc hwn. Disgwylir i’r ohebiaeth leihau’n sylweddol ar ôl i’r gofyniad i osod CCTV mewn lladd-dai cymeradwy gael ei fandadu.

23. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu’r cyllid mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei gael ar gyfer cynnal gweithgareddau monitro a gorfodi. Mae’n annhebyg y bydd cyfanswm yr arian hwn yn fwy nag £22,000 y flwyddyn. Mae'n annhebyg y

[13] Earnings and hours worked, region by occupation by four-digit SOC: ASHE Table 15 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

bydd unrhyw gostau ychwanegol amlwg i Heddluoedd Cymru; a bach iawn, os o gwbl, fydd yr effaith ar y system gyfiawnder.

**Manteision**

24. O ganlyniad i recordiadau CCTV mwy cynhwysfawr a hygyrch, disgwyliwn y byddai newid ymddygiad mewn lladd-dai nad ydynt ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion presennol. Ni ddisgwyliwn i hyn fod yn berthnasol i ladd-dai sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion ar hyn o bryd. Yn benodol, rydym o'r farn y dylid gweld gwelliannau yn yr arferion a roddir ar waith gan ladd-dai, gan arwain at gydymffurfedd gwell, h.y. y dylai'r diwygiadau hyn o ran CCTV gael effaith ataliol. Oherwydd hyn, dylai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar les anifeiliaid.

25. Mae gan y polisi hwn y potensial i fod o fudd i fusnesau nad oes ganddynt CCTV ar hyn o bryd, drwy ddarparu tystiolaeth ar eu cyfer ynglŷn â gwella prosesau gweithredu a llywio adolygiadau effeithlonrwydd. Efallai hefyd y bydd recordiadau o'r fath yn arf defnyddiol ar gyfer hyfforddi staff presennol a staff newydd.

26. Drwy osod CCTV mewn mannau lle bydd anifeiliaid byw yn bresennol, bydd modd gwella effeithlonrwydd y gweithgareddau monitro a gorfodi drwy gynnig i Filfeddygon Swyddogol yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a hynny mewn modd rhwyddach a mwy cyfleus. Ni wyddom eto a fydd hyn yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn hysbysiadau gorfodi ac erlyniadau ai peidio – rhaid aros i weld a fydd y gofynion newydd o ran CCTV yn cael effaith ataliol ar ladd-dai ac yn peri iddynt gydymffurfio'n well.

27. Mae lladd-dai'n creu allanoldeb negyddol ar ladd-dai eraill pan fyddant yn cam-drin lles anifeiliaid a phan fydd hynny'n arwain at gost niweidiol ehangach o ran enw da'r sector cyfan, gan gynnwys y mwyafrif sy'n cydymffurfio.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

28. Aethpwyd ati i Asesu'r Gystadleuaeth er mwyn pwyso a mesur effeithiau posibl y polisi hwn. Ni ddisgwylir y bydd y polisi hwn yn cael unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn y diwydiant. Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o safleoedd – mae'n berthnasol i bob un. Isod, mae canlyniadau prawf hidlo (a oedd yn cynnwys naw o gwestiynau syml) sy'n ategu'r casgliad hwn, ac wedyn mae tystiolaeth i ategu'r atebion.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | OES |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C2**: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | OES |
| **C3**: Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | OES |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliadau'n effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | NA FYDDENT |
| **C5**: A yw'r rheoliadau'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | NAC YDYN |
| **C6**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | NA FYDDENT |
| **C7**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | NA FYDDENT |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | NAC YDY |
| **C9**: A fyddai'r rheoliadau'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | NA FYDDENT |

**Adolygiad Ôl-weithredu**

Bydd gweithredu, gorfodi a chydymffurfio â Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 yn cael eu monitro drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol a deialog reolaidd â'r ASB.